**Cyngor Tref Llangollen Town Council.**

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Mai 2020.**
**Minutes of the Council Meeting held on 26th May 2020.**

**Yn bresennol:** Y Cyng Cheminais, Grindley, Haddy (Maer y Dref), Hughes, Keddie, Lovelock, Lube, Mile a Richards.

**Present:** Cllrs Cheminais, Grindley, Haddy (Town Mayor), Hughes, Keddie, Lovelock, Lube, Mile and Richards.

**Mynychu:** G. Thomas (Clerc y Dref) a 4 aelod o'r cyhoedd.

**In attendance:** G. Thomas (Town Clerk). 4 members of the public.

C/155/20

**Cyhoeddiadau'r Maer.**
Croesawodd Maer y Dref yr Aelodau, Clerc y Dref ac aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod fideo-gynadledda cyntaf erioed o Gyngor y Dref a gynhaliwyd o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020.
Cyn dechrau'r cyfarfod, darllenodd Maer y Dref lythyr a dderbyniwyd gan ŵr lleol, Mr Simon Baines, oedd yn datgan:

Roeddwn eisiau cysylltu oherwydd y gwaith gwych rydych chi wedi bod yn ei wneud ac yn parhau i'w wneud fel Cyngor Tref i gefnogi pobl Llangollen yn ystod yr amseroedd anodd ac ansicr hyn – ac i fynegi diolch enfawr i chi.
Clywais a darllenais am lawer enghraifft o'r cymorth a'r gefnogaeth a gafwyd gan Gyngor y Dref yn ystod yr argyfwng Coronafirws, ond yr hyn wnaeth argraff arbennig arnaf i oedd yr hyn a wnaethoch i goffau 75 mlwyddiant Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop: helpu i ariannu menter pecynnau rhoddion Rhannu Bwyd Llangollen ar gyfer Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop i helpu preswylwyr oedrannus, a ffrydio'ch "Rhith-Barti Aros Adref Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop" yn fyw. Dylai pob un ohonoch fod yn hynod falch o'r enghreifftiau rhagorol

**Mayor's Announcements.**
The Town Mayor welcomed Members, the Town Clerk our members of the public to the first ever video conferencing meeting of the Town Council being held under the Local Authorities (Coronavirus) (Meetings) (Wales) Regulations 2020.
Prior to commencing the meeting, the Town Mayor read out a letter from the local Mr Simon Baines which stated:

I wanted to get in touch about the fantastic work you've been doing and continue to do as a Town Council to support the people of Llangollen during these difficult and uncertain times - and to say a huge thank you.

There are many examples of the Town Council's help and support during the Coronavirus crisis that I read or hear about but I was particularly impressed by the work you've been doing to celebrate 75th anniversary of VE day: helping to fund Llangollen Food Share's VE Day gift packs initiative to help elderly residents and live streaming your own virtual "Stay at Home VE Day Party". You should all be extremely proud of these excellent examples of community spirit in action. You have my sincere thanks for all you are doing.

| | | |
|---|---|---|
| | hyn o ysbryd cymunedol ar waith. Diolchaf yn ddiffuant am bopeth yr ydych yn ei wneud.<br>Os oes unrhyw beth y gallaf ei wneud i helpu'r Cyngor neu unrhyw Aelod unigol o'r Cyngor, cysylltwch â mi'n syth. Byddwn yn fwy na pharod i helpu.<br><br>Eglurodd Maer y Dref y protocol a baratowyd a fyddai'n arwain ac yn cefnogi gweithrediad rhith-gyfarfodydd o dan y rheoliadau cyfredol.<br>Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd derbyn y protocol cyfarfod o bell.<br>Cytunodd pawb. | If there's anything I can do to help you as a Town Council or individual Town Councillors, please don't hesitate to get in touch with me - I'd be more than happy to help.<br><br>The Town Mayor reported on the protocol that had been prepared which would guide and support the operation of virtual meetings under the current regulations.<br>It was proposed seconded and resolved that the remote meeting protocol be accepted .<br>All agreed. |
| **C/156/20** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb.**<br>Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd derbyn ymddiheuriadau gan y Cyng Baker oherwydd materion technegol oedd yn ei atal rhag cymryd rhan yn y gynhadledd fideo.<br>Cytunodd pawb. | **Apologies for Absence.**<br>It was proposed seconded and resolved to accept apologises from<br>Cllr Baker due to technical issues preventing attendance to the videoconference facilities.<br>All agreed. |
| **C/157/20** | **Datganiadau o Fuddiant.**<br>Dim. | **Declarations of Interest.**<br>None. |
| **C/158/20** | **Datganiadau gan y cyhoedd**<br>Gofynnodd Mr John Palmer a allai'r Cyngor Tref gynnal arolwg ffôn o fusnesau lleol i ddeall yr effaith y mae'r cyfyngiadau coronafirws diweddar wedi'i chael ar eu gweithrediadau a sut y maent yn debygol o ymdopi yn y dyfodol. | **Statements from the public.**<br>Mr John Palmer asked if the Town Council could undertake a telephone survey of local businesses to understand the effect that the recent coronavirus restrictions have had on their operations and how they are likely to cope in the future. |
| **C/159/20** | **Cofnodion y cyfarfod.**<br>Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd y dylid awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10.03.2020 fel cofnod cywir.<br>Cytunodd pawb. | **Minutes of Meeting.**<br>It was proposed, seconded and resolved that the Chairman be authorised to sign the minutes of the meeting held on 10.03.2020 as a correct record.<br>All agreed. |
| **C/160/20** | **Materion Ariannol.** | **Financial Matters.** |
| C/160/20(a) | Ffurflen flynyddol | Annual return. |

Ystyriodd yr aelodau adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar y Ffurflen Flynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.
Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd:

a) derbyn adroddiad yr archwilwyr mewnol a gweithredu'r camau a nodwyd ar unwaith, ac
b) awdurdodi Maer y Dref i lofnodi'r Ffurflen Flynyddol i'w chyflwyno i'r archwilwyr allanol.

Cytunodd pawb.

Members considered the Internal Auditors report on the Annual return for the year ending 31st March 2020.
It was proposed, seconded and resolved to:

a) accept the internal auditors report and that the actions identified be implemented immediately, and
b) that the Town Mayor is authorised to sign the Annual Return for submission to the external auditors.

All agreed

C/160/20(b) Cronfeydd wrth gefn.
Ystyriodd yr aelodau adroddiad ar ddyrannu cronfeydd wrth gefn.
Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd:

a) talu £22,220.00 o danwariant i ganolfan gost y prosiect hwyluso talu'r gwaith ailosod boeler.
b) cytuno ar amcangyfrif atodol o £6,000 i'w ariannu o danwariant i ganolfan gost Cyllid a Thollau EM ar gyfer 2020/21 i dalu taliadau Yswiriant Gwladol nas talwyd eisoes a'r rhai fydd angen eu talu yn y dyfodol.
c) trosglwyddo £1,846 i gronfeydd wrth gefn cyffredinol.

Cytunodd pawb.

Reserves
Members considered a report on the allocation of reserves.
It was proposed, seconded and resolved to:

a) vire £22,220.00 of underspend to the project cost centre to facilitate the payment of the boiler replacements works.
b) agree a supplementary estimate of £6,000 to be funded from underspends to the HMRC cost centre for 2020/21 to cover unpaid and future National Insurance payments.
c) transfer £1,846 to general reserves.

All agreed

C/160/20(c) Datganiad Ariannol.
Derbyniwyd a nodwyd datganiad ariannol mis Mai.

Financial Statement.
The financial statement for May was received and noted.

C/160/20(d) Taliadau Awdurdodedig.
Cyflwynwyd taliadau mis Mai (isod) i'r cyfarfod.

Authorised Payments.
The payments for May detailed below, were presented to the meeting.

| Supplier | Method | Gross | VAT | Net |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Staff CTL1/LTC1 | TB/BP M1.1 | £1,654.97 | £0.00 | £1,654.97 |
| Staff CTL02/LTC02 | TB/BP M1.2 | £859.30 | £0.00 | £859.30 |
| CThEM/HMRC | TB/BP M1.3 | £959.07 | £0.00 | £959.07 |
| AW Renewables | TB/BP 14 | £360.00 | £60.00 | £300.00 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| AW Renewables | TB/BP 15 | £26,284.38 | £4,380.73 | £21,903.65 |
| H Bird Jones | TB/BP 16 | £21.80 | £0.00 | £21.80 |
| C J Chard | TB/BP 17 | £242.55 | £0.00 | £242.55 |
| H Edwards | TB/BP 18 | £756.00 | £0.00 | £756.00 |
| Foodshare Llangollen | TB/BP 19 | £2,000.00 | £0.00 | £2,000.00 |
| JDH Business Services Ltd | TB/BP 20 | £696.00 | £116.00 | £580.00 |
| Infinitetee Ltd | TB/BP 21 | £100.00 | £0.00 | £100.00 |
| K Manton | TB/BP 22 | £56.70 | £0.00 | £56.70 |
| C Meade | TB/BP 23 | £80.00 | £0.00 | £80.00 |
| Rawsons Digital | TB/BP 24 | 649.04 | 108.18 | 540.86 |
| One Voice Wales | TB/BP 25 | £204.00 | £0.00 | £204.00 |
| P Stroud | TB/BP 26 | £22.98 | £3.83 | £19.15 |
| Terrier Tools | Visa 2 | £159.96 | £26.66 | £133.30 |
| Zoom | Visa 3 | £143.88 | £23.98 | £119.90 |
| Go To Meeting | Visa 4 | £12.00 | £0.00 | £12.00 |
| Fibrous | Visa 5 | £106.68 | £17.78 | £88.90 |
| Viking | Visa 6 | £97.13 | £16.19 | £80.94 |
| ACS Technology | DU/DD | £133.00 | £0.00 | £133.00 |
| Nwy Prydain / British Gas | DU/DD | £17.15 | £0.81 | £16.34 |
| Nwy Prydain / British Gas | DU/DD | £6.49 | £0.55 | £5.94 |
| Nwy Prydain / British Gas | DU/DD | £56.40 | £2.68 | £53.72 |
| British Telecom | DU/DD | £94.44 | £15.74 | £78.70 |
| CS Ddinbych / Denbighshire CC | DU/DD | £180.00 | £0.00 | £180.00 |
| CS Ddinbych / Denbighshire CC | DU/DD | £1,097.00 | £0.00 | £1,097.00 |
| NEST | DU/DD | £234.30 | £0.00 | £234.30 |
| S Johnston | TS/SO | £70.00 | £0.00 | £70.00 |

C/160/20(e)

Dyfynbrisiau yswiriant.
Ystyriodd yr aelodau ddyfynbrisiau a dderbyniwyd ar gyfer yswiriant.
Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd bod Cyngor y Dref yn derbyn dyfynbris Parish Protect, sef polisi a warantir gan Royal and Sun Alliance PLC Insurance ac a gynigir gan Business Services at CAS Ltd, is-gwmni o Community Action Suffolk, ac yn ymrwymo i dymor tair blynedd o hyd.
Cytunodd pawb.

Insurance quotations.
Members considered quotations received for insurance cover.
It was proposed, seconded and resolved that the Town Council accepts the quotation form Parish Protect, a policy underwritten by Royal and Sun Alliance PLC Insurance and offered by Business Services at CAS Ltd a subsidiary company of Community Action Suffolk and enters into a three year long term undertaking.
All agreed.

**C/161/20**

**Ceisiadau Cynllunio.**

**Planning Applications.**

**03/2020/0230 Neuadd Pengwern, Pengwern.**
Tynnu wal allanol i'r estyniad ar oledd presennol a chodi pileri mewnol i ffurfio feranda. Ffurfio agoriad drws

**03/2020/0230 Pengwern Hall, Pengwern.**
Removal of external wall to existing lean-to extension and erection of internal pillars to form veranda. Replace the

allanol yn lle'r ffenestr bresennol. Tynnu’r waliau mewnol i ffurfio cynllun arall ar y llawr gwaelod a'r ail lawr. Gosod ffenestri newydd, tirlunio a gwaith cysylltiedig (Cais Adeilad Rhestredig).

Ystyriodd yr aelodau y cais a dyfarnu ei fod yn dderbyniol o ran cynllunio.
Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd na ddylid codi unrhyw wrthwynebiad i'r cais hwn.
Cytunodd pawb

existing window with an external door opening. Removal of internal walls to form a second floor and second floor layout. Replacement windows, landscaping, and associated works (Listed Building Application).

Members considered the application and adjudged that it was acceptable in planning terms.
It was proposed, seconded and resolved that no objections be raised relating to this application.
All agreed.

**03/2020/0306 Swn Y Ddyfrdwy, Berwyn.** Estyniad unllawr arfaethedig i ddarparu ystafell wely.

Ystyriodd yr aelodau y cais a dyfarnu ei fod yn dderbyniol o ran cynllunio.
Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd na ddylid codi unrhyw wrthwynebiad i'r cais hwn.
Cytunodd pawb

**03/2020/0306 Swn Y Ddyfrdwy, Berwyn.**
Proposed single storey extension to provide bedroom accommodation.

Members consider the application and adjudged that it was acceptable in planning terms.
It was proposed, seconded and resolved that no objections be raised relating to this application.
All agreed.

**C/150/20** **Tystysgrifau Penderfyniad** **Certificates of Decision.**

**03/2019/1085 Tir i'r de o Heol y Ficerdy.**
Amrywio amodau 2, 3 a 4 caniatâd cynllunio Côd 03/2019/0274/PF er mwyn amrywio'r rhestr o gynlluniau a gymeradwywyd i ganiatáu dylunio diwygiedig.

**Penderfyniad: Caniatáu.**

**03/2019/1085 Land South of Vicarage Road.**
Variation of conditions 2, 3 and 4 of planning permission code 03/2019/0274/PF to vary the list of approved plans to allow amended design.

**Decision: Grant.**

**03/2019/1003 Tir oddi ar Heol y Ficerdy.**
Amrywio amod 2 o gais cynllunio 03/2016/0300/PF i ganiatáu diwygiadau i fathau o dai a chynllun y safle.
**Penderfyniad: Caniatáu**

**03/2019/1003 Land Off Vicarage Road.**
Variation of condition 2 of planning application 03/2016/0300/PF to allow amendments to house types and site layout.

**Decision: Grant.**

**C/153/20**

**Adroddiadau'r Cynghorydd Sir.**
Amlinellodd y Cyng Timms y gweithgareddau yr oedd y Cyngor Sir wedi'u gwneud mewn ymateb i bandemig COVID-19. Dywedodd wrth yr Aelodau fod y nifer cychwynnol o grantiau busnes yn Llangollen yn is na rhannau eraill o'r sir, sef tua 65% i'w gymharu â 75%. Bwriad y Cyngor Sir oedd cysylltu â phobl nad ydynt wedi derbyn grantiau i weld a oedd angen cymorth arnynt. Bydd Swyddogion y Cyngor Sir yn gwneud hyn yn ystod yr wythnosau nesaf. Yn yr un modd â sectorau eraill, ymdrechwyd i sicrhau bod Offer Amddiffynnol Personol ar gael ar gyfer Staff Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal. Yn ddiweddar, mae nifer o swyddogion wedi cael eu secondio i weithio ar y timau tracio, olrhain ac ynysu sydd wedi'u sefydlu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwallader. Dywedodd y Cyng Timms hefyd na fyddai'r gwasanaethau amwynder dinesig yn dychwelyd i Langollen. Roedd hyn yn destun pryder iddo ef ac i'r Cynghorydd Mile, o ystyried agosrwydd safleoedd eraill yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, roedd y Cyngor Sir hefyd yn ymwybodol o rai o'r problemau a gafwyd yn Wrecsam lle bu'n rhaid i'r heddlu ymyrryd i gau safleoedd amwynder. O'r herwydd, roedd y sefyllfa'n cael ei hadolygu.

**County Councillor's Reports.**
Cllr Timms outlined the activities the County Council  had been undertaking in response to the COVID-19 pandemic. He advised Members that the initial take up of business grants in Llangollen was lower than other parts of the county at about 65% opposed to 75%. It was the County Council's intention to contact people that have not taken up grants to see if they required support. This would be undertaken by officers of the County Council over the next few weeks. As with other sectors, a lot of activity had been undertaken in order to secure PPE for Social Services and Care Staff and more recently a number of officers were being seconded to work on the trace, track and isolate teams that have been set up by the Betsi Cadwallader University Health Board. Cllr Timms also mentioned the fact that the civic amenity services will not be returning to Llangollen and this was of concern to both himself and Cllr Mile, given the proximity of other sites within Denbighshire. However, the County Council were also aware of some of the problems which have been encountered in Wrexham which had required intervention from the police to close down amenity sites and therefore the situation was under review.

**Gan nad oedd unrhyw eitemau pellach, daeth y cyfarfod i ben am 6.55 y.h.**

**There being no further items the meeting closed at 6.55 pm**